Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# INSWLEIDDIO WALIAU SOLET YN ALLANOL

## Arweiniad cynllunio i ddeiliaid tai

Hydref 2013

Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint

# Mae newid hinsawdd yn digwydd yn awr

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau'r dyfodol gorau posibl i Gymru, ac wedi gwneud ymrwymiadau beiddgar i fynd i'r afael mewn ffordd gynaliadwy ag achosion a chanlyniadau'r newid hinsawdd, yn Strategaeth Cymru ar y Newid Hinsawdd. Atgyfnerthir hyn gan ein hymrwymiad cyffredinol i ddatblygu cynaliadwy.

Mae'n dull ni o weithredu yn rhoi cyfle i Gymru arwain y ffordd, a manteisio ar yr holl gyfleoedd eraill a ddaw i'w rhan trwy chwarae rhan flaengar mewn byd sy'n newid. Fodd bynnag, credwn mai newid diatal yn yr hinsawdd yw un o'r peryglon mwyaf difrifol y mae'r byd yn eu hwynebu, gan ei fod yn bygwth hanfodion bywyd i bobl ledled y byd: mynediad at ddŵr, iechyd a'r moddion i gynhyrchu bwyd.

Gallwn wneud rhywbeth ynghylch y newid yn yr hinsawdd os byddwn i gyd yn cydweithio â'n gilydd. Fel cymdeithas, rhaid inni leihau'r nwyon tŷ gwydr yr ydym i gyd yn eu cynhyrchu, drwy newid ein ffordd o gynhyrchu a defnyddio ynni.

Gall pob un ohonom wneud dewisiadau a fydd yn lleihau allyriadau neu'n ychwanegu at ein gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Trwy ôl-ffitio eich cartref gyda mesurau effeithlonrwydd ynni, fel inswleiddio'r waliau solet allanol, byddwch yn lleihau eich ôl troed carbon a'ch biliau ynni yn y tymor hir. Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth am inswleiddio waliau allanol, ac mae'n canolbwyntio'n arbennig ar y rheoliadau cynllunio presennol ar gyfer tai.

# CYNNWYS


**Sut i ddechrau** 4

Beth yw'r daflen hon?

**Lleihau eich ôl troed carbon** 5

Beth ddylwn i ei wneud gyntaf?

**Inswleiddio waliau solet yn allanol** 7

Beth yw ystyr inswleiddio waliau yn allanol?
Gosodwyr a chynhyrchion
Cartrefi

**A oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer inswleiddio waliau solet yn allanol?** 12

**Pa faterion ddylwn i eu cadw mewn cof wrth ystyried inswleiddio waliau solet yn allanol?** 15

**Cyllid** 18

**Rhagor o wybodaeth** 21

# Sut i Ddechrau

## Beth yw'r daflen hon?

Mae'r daflen hon ar gyfer deiliaid tai sy'n dymuno inswleiddio'u cartrefi drwy inswleiddio waliau solet yn allanol. Gall hynny fod er mwyn manteisio ar fentrau gan Lywodraeth Cymru neu'r DU i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, neu ddim ond er mwyn lleihau eu biliau ynni.

Beth bynnag fo'ch rhesymau, pwrpas y daflen hon yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am y materion y dylech eu hystyried cyn gosod deunydd inswleiddio allanol ar waliau solet. Canolbwyntir yn benodol ar hawliau datblygu a ganiateir cyfredol, a ffyrdd o osod y deunydd inswleiddio a fydd yn lleihau'r effaith arnoch chi, eich cymdogion a'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn lleol.

Nid yw'r daflen hon yn mynd i'r afael â materion technegol sy'n ymwneud ag inswleiddio waliau solet allanol ac nid yw ychwaith yn trafod rhinweddau hyn. I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at dudalennau 21 - 23. Mae'r holl luniau yn y ddogfen hon at ddibenion eglurhaol yn unig.

Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint


# Lleihau Eich Ôl Troed Carbon

## Beth ddylwn i ei wneud gyntaf?

### Effeithlonrwydd ynni

Os ydych chi wedi penderfynu yr hoffech leihau ôl troed carbon eich cartref, dylech sicrhau yn gyntaf oll ei fod mor ynni-effeithlon ag y bo modd. Ystyr hyn yw edrych i weld sut y gellwch leihau'r ynni sydd ei angen ar eich cartref.

Gall mesurau effeithlonrwydd ynni, megis inswleiddio'r waliau, helpu i leihau'r defnydd o ynni, i wresogi eich cartref. Efallai hefyd y dylech ystyried nifer o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill, megis cynnal a chadw'r adeilad, gosod boeler effeithlonrwydd uchel, inswleiddio toeau, atal drafftiau a defnyddio bylbiau golau mwy effeithlon.



## Ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel

Yn ogystal â gosod mesurau effeithlonrwydd ynni fel inswleiddio waliau solet yn allanol, hwyrach y dylech ystyried cynhyrchu ynni adnewyddadwy eich hunan. Mae gennym gyfres o 11 taflen ar wahân sy'n dwyn y teitl **'Cynhyrchu Eich Ynni Eich Hun – Arweiniad cynllunio ar gyfer cartrefi, cymunedau a busnesau'**. Mae'r taflenni hyn yn darparu gwybodaeth am y pethau y dylid eu hystyried wrth osod technoleg ynni adnewyddadwy, y rheoliadau cynllunio, a ffyrdd o liniaru effeithiau unrhyw waith o'r fath. Maent yn darparu gwybodaeth hefyd am y cymorth ariannol sydd ar gael, megis y tariff cyflenwi trydan.

| Rhennir y gyfres yn 11 taflen fel a ganlyn: | |
|---|---|
| 1 | Cynhyrchu Eich Ynni Eich Hun – Arweiniad cynllunio ar gyfer cartrefi, cymunedau a busnesau |
| 2A | Gwynt |
| 2B | Trydan Solar |
| 2C | Dŵr Solar |
| 2D | Ynni Dŵr |
| 2E | Biomass |
| 2F | Biomass (treulio anaerobig) |
| 2G | Gwres a Phŵer Cyfunedig |
| 2H | Pympiau Gwres |
| 3A | Cynhyrchu Eich Ynni Eich Hun –<br>Rheoliadau Cynllunio ar Gyfer Microgynhyrchu (Cartrefi) |
| 3B | Cynhyrchu Eich Ynni Eich Hun –<br>Rheoliadau Cynllunio ar Gyfer Microgynhyrchu (annomestig) |



Mae fersiwn electronig o'r taflenni hyn, ar wefan Llywodraeth Cymru.
www.cymru.gov.uk/cynllunio

# Inswleiddio Waliau Solet yn Allanol

## Beth yw ystyr inswleiddio waliau solet yn allanol?


Mae inswleiddio waliau solet yn allanol yn ffordd o wella effeithlonrwydd ynni adeiladau sydd â waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod). Waliau solet, sydd â'r briciau neu'r cerrig wedi eu gosod ar draws yn ogystal ag ar eu hyd, a geir yn y rhan fwyaf o adeiladau a godwyd cyn y 1920au. Mae waliau ceudod wedi eu hadeiladu mewn dwy haen, gyda bwlch (neu 'geudod') cul rhyngddynt. Gan nad oes ceudod o'r fath mewn waliau solet, maent yn caniatáu i lawer mwy o'r gwres ddianc. Gall adeilad sydd wedi ei inswleiddio'n wael golli hyd at 25% o'i wres drwy ei waliau. Mae waliau solet yn colli mwy o wres, hyd yn oed, na waliau ceudod – weithiau mwy na dwywaith yr hyn a gollir drwy wal geudod sydd heb ei hinswleiddio. Gellir inswleiddio waliau solet o'r tu mewn neu o'r tu allan i'r waliau, er mwyn gwella'u heffeithlonrwydd ynni a lleihau biliau.

Mae'r ffordd yr adeiladwyd waliau solet yng Nghymru yn amrywio'n fawr. Mae'n hanfodol, felly, eich bod yn cael cyngor ynghylch addasrwydd deunydd inswleiddio ar waliau solet cyn ei osod. Gweler tudalennau 21 - 23 i gael rhagor o wybodaeth.

| Pa fath o waliau sydd gen i? | |
|---|---|
| Waliau Ceudod | Waliau Solet |
|  |  |
| Fel arfer bydd patrwm y briciau ar wal geudod yn rheolaidd. | Ar waliau solet, fel arfer (ond nid pob tro) bydd patrwm y briciau'n amrywio. |

Er mwyn inswleiddio wal solet o'r tu allan, fel arfer gosodir haen o ddeunydd inswleiddio ar y waliau gan ddefnyddio gosodyddion mecanyddol ac adlynydd, a gorchuddir hwnnw â haenau o rendrad neu gladin i'w ddiogelu. Gall y gorffeniad fod yn llyfn neu'n weadog, wedi ei baentio, ei deilsio, ei banelu neu'i chwipio â gro neu gellir defnyddio slipiau i efelychu gwaith bricio. Mae'r gorffeniad yn gorchuddio'r cyfan o wyneb allanol yr adeilad, gan gynnwys gwaith bricio blaenorol, a gall ychwanegu rhwng 70mm a 160mm at drwch y wal. Yn ystod y broses rhaid tynnu ymaith ac ailosod yr holl bibwaith a ffitiadau allanol.

Er y gall unrhyw ddeiliad tŷ inswleiddio'i waliau yn allanol, mae ymgyrchoedd gan Lywodraeth y DU, drwy'r Fargen Werdd a'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO), ac yng Nghymru drwy Arbed a Nyth, i taclo adeiladau presennol a gwella'u perfformiad carbon. Un o'r eitemau mewn rhestr faith o fesurau arbed ynni yw inswleiddio waliau solet yn allanol. Darperir gwybodaeth bellach am y Fargen Werdd, Arbed, Nyth ac ECO ar dudalennau 18 a 20.




## Inswleiddio waliau yn fewnol

Dewis arall, yn hytrach na inswleiddio waliau yn allanol, yw inswleiddio wyneb mewnol waliau solet. Ar gyfer inswleiddio waliau yn

fewnol, defnyddir stydwaith, byrddau inswleiddio anhyblyg, dulliau leinio cyfunedig neu leinin thermol hyblyg. Yn nodweddiadol, mae'r dulliau hyn yn rhatach na'r dulliau o inswleiddio waliau solet yn allanol, ac nid achosir unrhyw newid yn ymddangosiad allanol y tŷ. Gall inswleiddio mewnol fod yn arbennig o fuddiol mewn tai a gynhesir yn y boreau a chyda'r nosau yn unig, gan fod arwyneb y waliau yn cynhesu'n gyflym. Fodd bynnag, mae'n achosi mwy o ymyrraeth, a bydd yr ystafelloedd yn llai o ganlyniad. Ar ôl ei osod, bydd angen adleoli byrddau sgyrtin, fframiau drysau a ffitiadau trydan. Fel rheol, ni fydd angen caniatâd ar gyfer inswleiddio waliau yn fewnol.

I gael rhagor o wybodaeth am inswleiddio yn fewnol ac yn allanol cyfeiriwch at dudalennau 21-23.

Cyngor ar inswleiddio waliau yn allanol yn unig a ddarperir yn y daflen hon, gan fod hynny'n effeithio ar ymddangosiad allanol adeiladau, ac felly'n fater ar gyfer rheoliadau cynllunio – cyfeiriwch at dudalennau 12 - 17.

## Gosodwyr a chynhyrchion

Dylai deunydd inswleiddio ar waliau yn allanol gael ei osod gan osodwr arbenigol a hyfforddwyd gan ddylunydd system cymeradwy. Gellir cael gwybodaeth bellach am gyflenwyr systemau a gosodwyr cymeradwy drwy un o'r cymdeithasau masnach perthnasol.

- Y Gymdeithas Inswleiddio Genedlaethol (NIA)
  www.nationalinsulationassociation.org.uk
- Insulated Render & Cladding Association (INCA)
  www.inca-ltd.org.uk

Dylai pob gosodwr gael ei gymeradwyo gan y British Board of Agrement (BBA) neu gymeradwyaeth cyfatebol.
http://www.bbacerts.co.uk/


Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn rhoi manylion am ddeunyddiau inswleiddio cymeradwy sydd wedi eu profi gan arbenigwyr annibynnol ac sy'n cydymffurfio â'r safonau Prydeinig perthnasol. www.est.org.uk

Gosodwr Bargen Werdd awdurdodedig yn unig gaiff osod gwelliannau effeithlonrwydd ynni o dan drefn cyllido'r Fargen Werdd. Unwaith y byddant wedi cael yr achrediad perthnasol, caiff gosodwyr awdurdodedig ddynodi eu hunain yn 'Osodwyr Bargen Werdd' ('Green Deal Installers') a defnyddio Nod Ansawdd y Fargen Werdd. Mae cofrestr o Aseswyr, Gosodwyr a Darparwyr y Fargen Werdd yn cael ei chadw gan gorff arolygu a chofrestru'r Fargen Werdd. Mae ar gael drwy'r ddolen ganlynol. gdorb.decc.gov.uk/

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer y Fargen Werdd, ewch i wefan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.
www.decc.gov.uk/en/content/cms/funding/funding.aspx

## Cartrefi

Ein cartrefi yw un o brif ffynonellau'r galw am ynni ac y mae nifer o gamau y gellwch eu cymryd o gwmpas eich cartref i leihau eich anghenion ynni. Gall hyn gynnwys inswleiddio'r waliau a'r toeau, newid boeleri, atal drafftiau a defnyddio bylbiau golau ac offer arall mwy effeithlon.



Dylai deiliad tŷ droi yn gyntaf oll at ein llyfryn **Gwella eich cartref - Canllaw Newid Hinsawdd** sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i bawb sy'n ystyried gwneud newidiadau i helpu'ch cartrefi i wrthsefyll y newid hinsawdd a lleihau eich ôl troed carbon cyffredinol.
www.cymru.gov.uk/cynllunio

## Helpwch Gymru i Leihau ei Hôl Troed Carbon

Dysgwch ragor am eich ôl troed carbon a sut i'w leihau.
www.walescarbonfootprint.gov.uk

## Inswleiddio waliau solet yn allanol, a chartrefi

Ar gyfer deiliaid tai, gall inswleiddio waliau yn allanol fod yn ffordd gynaliadwy o leihau eu anghenion ynni yn ogystal â'u hôl troed carbon a'u biliau tanwydd. Yn ôl amcangyfrifon yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, gall deiliaid tai, yn ddibynnol ar y math o inswleiddio, arbed tua £445 y flwyddyn. Mae ffynonellau cyllid ar gael i leihau'r gost ddechreuol o osod y deunydd inswleiddio allanol – gweler tudalennau 18 i 20.

# A oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer inswleiddio waliau solet yn allanol?

## Tai

Rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer amrywiol fathau o ddatblygiadau. Nid oes angen caniatâd cynllunio ar rai datblygiadau gan eu bod yn dod o dan `hawliau datblygu a ganiateir'. Gwnaed newidiadau er mwyn darparu `hawliau datblygu a ganiateir' ar gyfer inswleiddio waliau solet yn allanol mewn tai. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn ddibynnol ar fodloni rhai amodau – ceir rhagor o wybodaeth isod.

### Beth sydd angen ei gadarnhau gyntaf?

Cyn inswleiddio wal solet yn allanol mae'n bwysig cadarnhau a yw eich eiddo

- Mewn **Ardal Gadwraeth, Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol** neu **Safle Treftadaeth y Byd**;
- Yn **Adeilad Rhestredig** a nodwyd am ei bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol;
- Mewn ardal lle mae'r Cyngor wedi diddymu rhai o'ch hawliau datblygu a ganiateir drwy gyhoeddi **Cyfarwyddyd Erthygl 4**. Mae hyn yn digwydd pan fo perygl i gymeriad ardal o bwysigrwydd cydnabyddedig. Mae'n debyg y byddwch yn gwybod os yw'ch eiddo yn cael ei effeithio gan gyfarwyddyd o'r fath, ond gallwch holi'r cyngor os nad ydych yn siŵr.
- Dan amod sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio gwreiddiol ar gyfer y tŷ, sy'n diddymu'r hawliau datblygu a ganiateir.

Yn yr achosion hyn, mae rhai cyfyngiadau yn berthnasol, ac fe ddylech ofyn am gyngor pellach gan eich awdurdod cynllunio lleol.

### Pryd nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer inswleiddio wal solet yn allanol?

Os nad yw'r cyfyngiadau uchod yn berthnasol, gallwch inswleiddio wal solet yn allanol ar yr amod:

- Nad yw'r deunydd inswleiddio yn ymestyn dros 16 centimetr tu hwnt i ran allanol y tŷ.

Mae'r daflen yn rhoi canllawiau cyffredinol ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer inswleiddio waliau solet yn allanol. Mae'n hanfodol i chi gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol, yn y lle cyntaf, er mwyn sicrhau nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich cynnig.

Mae'r rheoliadau hyn wedi'u gosod yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2013. I gael rhagor o wybodaeth am y rheoliadau gallwch hefyd fynd i'n gwefan: www.cymru.gov.uk/cynllunio

## Fflatiau ac Eiddo Annomestig

O ran fflatiau ac eiddo masnachol, mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer inswleiddio wal solet yn allanol. Y brif ystyriaeth yw effaith y gwaith ar ymddangosiad allanol eich adeilad. Gall eich awdurdod cynllunio lleol eich cynghori os oes angen caniatâd cynllunio ar eich cynnig.

# Materion eraill i'w hystyried

Mae hefyd yn bwysig deall, os byddwch yn inswleiddio wal solet, bod yn rhaid cydymffurfio â'r **Rheoliadau Adeiladu** presennol. I gael rhagor o wybodaeth am Reoliadau Adeiladu, cyfeiriwch at wefan Llywodraeth Cymru neu'r Porth Cynllunio:

Llywodraeth Cymru –
http://wales.gov.uk/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy

Porth Cynllunio (Cymru) –
http://www.planningportal.gov.uk/?language=wa

Efallai y bydd angen **cytundeb wal gydrannol** pan fo deunydd inswleiddio wal allanol yn arwain at wal sy'n cael ei rhannu. I gael rhagor o wybodaeth, cyfieirwch at Deddf Muriau Cyd ayb 1996: Llyfryn Esboniadol.

http://www.planningportal.gov.uk/buildingregulations/buildingpolicyandlegislation/currentlegislation/partywallact

Mae hefyd yn bwysig cadarnhau a yw'ch eiddo wedi'i leoli mewn **Ardal Llifogydd**. Efallai y bydd llifogydd yn effeithio ar berfformiad deunydd inswleiddio wal allanol. Os yw'ch eiddo mewn perygl o ddioddef llifogydd, mae'n bwysig defnyddio deunyddiau addas. I weld os yw'ch eiddo mewn perygl o ddioddef llifogydd, edrychwch ar wefan Mapiau Cyngor Datblygu Cymru.

http://data.wales.gov.uk/apps/floodmapping/

Os nad oes gardd flaen gan eich eiddo, a'i fod yn cyrraedd y palmant, dylech holi am gyngor gan yr awdurdod priffyrdd, yn ogystal â'ch awdurdod cynllunio lleol, oherwydd efallai y bydd angen **caniatâd priffyrdd**. Mae'n bwysig cael cyngor o'r fath er mwyn sicrhau na fyddai ymestyniad y deunydd inswleiddio y tu hwnt i flaen eich eiddo yn amharu ar y briffordd neu effeithio'n negyddol ar amwynder eiddo cyfagos.

# Pa faterion ddylwn i eu cadw mewn cof wrth ystyried inswleiddio waliau solet yn allanol?

Gall inswleiddio waliau solet yn allanol newid ymddangosiad allanol adeiladau yn sylweddol. Mae nifer o ffyrdd y gall y dewis o gynhyrchion a'u dyluniad newid yr effeithiau hynny yn sylweddol. Mewn rhai sefyllfaoedd, ni fydd inswleiddio waliau solet yn allanol yn fesur addas; a hwyrach y bydd rhaid ichi ystyried dulliau effeithlonrwydd ynni eraill – megis inswleiddio waliau yn fewnol (gweler tudalen 8).

Mae'r rhestr gyfeirio isod yn nodi ffyrdd o leihau effaith inswleiddio waliau solet yn allanol. Os bydd caniatâd yn ofynnol, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried y materion a godir yma, ochr yn ochr â ffactorau perthnasol eraill, wrth benderfynu a ganiateir y cais cynllunio ai peidio.

## Dylunio

Mae chwaeth pawb yn wahanol, a bydd gwahanol arddulliau yn addas ar gyfer gwahanol fathau o adeilad. Er hynny, bydd y gallu i werthfawrogi ymddangosiad a chymeriad y stryd a'r adeiladau o amgylch yn eich helpu i ddewis y deunyddiau a'r gorffeniad priodol ar gyfer y gwaith. Mae'n debyg y bydd y canlyniad wedyn yn fwy dymunol i chi ac i'ch cymdogion, a gallai helpu i wneud yr ardal yn fwy deniadol.

**Rhestr gyfeirio Inswleiddio Waliau yn Allanol (IWA)**

| Mater | Effaith | Ffyrdd o liniaru'r effaith |
|---|---|---|
| Tirwedd ac effaith weledol | • Effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr eiddo ac arbenigrwydd lleol yr ardal o amgylch.<br>• Colli'r deunydd wynebu gwreiddiol sy'n un o nodweddion buddiol yr eiddo a/neu gymeriad yr ardal. | • Gosod gorffeniad o ansawdd uchel sydd, pan fo'n briodol yn cyfateb i'r gwreiddiol.<br>• Ceisio sicrhau bod y gwaith yn gydnaws ag arbenigrwydd lleol yr ardal.<br>• Defnyddio deunyddiau, lliw a gwead addas, sy'n cyfateb yn sensitif i gyd-destun y safle. |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol | • Effaith weledol ar gymeriad a/neu ymddangosiad adeilad neu safle o werth hanesyddol (e.e. adeilad rhestredig) neu ardal o werth hanesyddol (e.e. ardal gadwraeth). | • Hepgor IWA ar adeiladau o werth hanesyddol neu mewn lleoliadau sensitif.<br>• Sicrhau bod gwaith ar adeilad rhestredig yn cadw'r adeilad a'i leoliad ynghyd ag unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.<br>• Sicrhau bod y gwaith yn diogelu neu'n gwella cymeriad ac ymddangosiad ardaloedd cadwraeth. |

| Rhestr gyfeirio Inswleiddio Waliau yn Allanol (IWA) | | |
|---|---|---|
| Mater | Effaith | Ffyrdd o liniaru'r effaith |
| Ffasâd | • Gallai IWA ar un tŷ yn unig mewn rhes neu mewn pâr effeithio ar berthynas y ffasâd â'r tŷ neu'r tai cyfagos. | • Gall dull 'bloc cyfan' o ymdrin â rhes neu bâr o dai, drwy gynllun cynhwysfawr (megis Arbed – gweler tudalen 18), liniaru effaith weledol IWA.<br>• Siaradwch â'ch cymdogion i weld a ydynt hwythau'n ystyried gosod IWA.<br>• Sicrhau bod yr IWA yn bargodi cyn lleied ag y bo modd – wrth sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. |

# Cyllid

Mae nifer o ffynonellau cyllid y gellir manteisio arnynt yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

## Y cynllun Arbed

Y cynllun Arbed yw Rhaglen Llywodraeth Cymru o Fuddsoddi Strategol mewn Ynni, sy'n darparu cyllid i awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i wella cartrefi â mesurau megis paneli solar, pympiau gwres ffynhonnell aer, boeleri ac inswleiddio waliau yn allanol. Pan fo modd, mae'r cynllun Arbed yn gweithredu ar raddfa cymuned neu stryd gyfan.

I gael rhagor o wybodaeth am Arbed, gellwch ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru neu, i gael gwybod pa gymorth a allai fod ar gael i chi, gellwch e-bostio tîm Arbed Llywodraeth Cymru.
www.cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/efficiency/arbed

E-bost arbed@wales.gsi.gov.uk

## Nyth

Nyth yw cynllun Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae Nyth yn cynnig cyngor a chymorth i'r holl ddeiliaid tai, i leihau biliau tanwydd drwy arbed ynni, gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi a chynyddu eu hincwm. Targedir y lefel uchaf o gymorth ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-dal yn seiliedig ar brawf modd ac yn byw mewn eiddo nad yw'n effeithiol o ran ynni (gradd G). Mae'r aelwydydd cymwys yn cael asesiad cartref cyfan, a fydd yn ystyried pa becyn o fesurau fyddai'r mwyaf priodol ar gyfer yr eiddo dan sylw. Bydd cynnwys y pecynnau'n amrywio, ond gallent gynnwys boeler

newydd, gwres canolog, inswleiddio atig a waliau ceudod, inswleiddio waliau yn allanol neu osod technolegau adnewyddadwy.

Cysylltwch â Nyth am gyngor ar y cymorth a allai fod ar gael i chi.

www.nestwales.org.uk

Ffôn 0808 808 2244

## Y Fargen Werdd

Fframwaith cyllido newydd yw'r Fargen Werdd, sy'n galluogi ffyrmiau preifat i gynnig gwelliannau ynni-effeithlon i ddefnyddwyr, ar gyfer cartrefi, mannau cymunedol a busnesau. Mae'r cynllun yn ceisio goresgyn rhai o'r rhwystrau a oedd yn atal pobl rhag manteisio ar fesurau effeithlonrwydd ynni, drwy ddileu'r angen i dalu costau ymlaen llaw, gwella argaeledd cyllid a gwneud gwelliannau yn fwy fforddiadwy. Yr egwyddor allweddol ar gyfer mynediad at gyllid gan y Fargen Werdd yw na chaiff y tâl a atodir i'r bil ynni fod yn fwy na'r arbedion a ddisgwylir.

I gael rhagor o wybodaeth am y Fargen Werdd, ffoniwch y llinell gymorth ar 0300 123 1234 neu ewch i wefan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

www.decc.gov.uk/en/content/cms/funding/funding.aspx neu https://www.gov.uk/government/organisations/department-of-energy-climate-change/series/green-deal-quick-guides

## Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO)

ECO yw'r rhwymedigaeth a osodir gan Lywodraeth y DU, o fis Hydref 2012 ymlaen, ar gwmnïau ynni sydd â 250,000 o gwsmeriaid neu ragor. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn amcangyfrif y bydd gwariant ECO yn y DU tua £1.3 biliwn yn 2013-14. Mae tair elfen i ECO:

- Rhwymedigaeth Arbed Carbon/Rhwymedigaeth Lleihau Allyriadau Carbon (CERO): tua £760m. Lluniwyd yn bennaf i ategu'r Fargen Werdd er mwyn i fesurau drytach, fel inswleiddio waliau solet a wal geudod anodd ei thrin, fod yn fwy fforddiadwy. Fodd bynnag, gellir ei defnyddio hefyd gyda ffynonellau ariannu eraill, ac nid yw ar gyfer y Fargen Werdd yn unig.
- Rhwymedigaeth Cymunedau Arbed Carbon (CSCO): tua £190m. Targedir cartrefi yn 15% isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach, gydag o leiaf 15% mewn cartrefi gwledig.
- Rhwymedigaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy/Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi Cartrefi (HHCRO): tua £350m. Cymorth i ddeiliaid tai preifat ar incwm isel (sy'n derbyn rhai budd-daliadau a chredydau treth sy'n dibynnu ar brawf modd) ar gyfer gosod mesurau, gan gynnwys systemau gwresogi ac inswleiddio wal soled, wal geudod a llofft.

I gael rhagor o wybodaeth am ECO ffoniwch y llinell gymorth ar 0300 123 1234 neu ewch i wefan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd www.decc.gov.uk/en/content/cms/funding/funding.aspx

# Rhagor o Wybodaeth

## Llywodraeth Cymru – Cynllunio

Rhagor o wybodaeth am hawliau datblygu a ganiateir i ddeiliaid tai – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2013.

www.cymru.gov.uk/cynllunio

## Llywodraeth Cymru – Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth am bolisi'r Llywodraeth ar fynd i'r afael â newid hinsawdd yng Nghymru.

www.cymru.gov.uk/newidhinsawdd

## Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn darparu cyngor diduedd ar arbed ynni a lleihau eich allyriannau carbon, yn ogystal â gwybodaeth am inswleiddio waliau yn allanol.

www.est.org.uk

Ffôn 0800 512 012 (opsiwn 3)

## Y Gwasanaeth Cynghori ar Arbed Ynni

Gallwch gael cyngor diduedd am ddim ar arbed ynni gan y Gwasanaeth Cynghori ar Arbed Ynni. Dyma wasanaeth cynghori canolog a noddir gan y Llywodraeth.

Ffôn 0300 123 1234

## Y Gymdeithas Inswleiddio Genedlaethol (NIA)

Cymdeithas fasnach ar gyfer inswleiddio waliau solet yn allanol yw NIA. Mae gwefan y gymdeithas yn cynnwys lleolydd cod post i ddod o hyd i osodwyr sy'n aelodau o NIA.
www.nationalinsulationassociation.org.uk

## The Insulated Render and Cladding Association (INCA)

Cymdeithas fasnach ar gyfer inswleiddio waliau solet yn allanol yw INCA. Mae gwefan y gymdeithas yn cynnwys lleolydd cod post i ddod o hyd i osodwyr sy'n aelodau o INCA.
www.inca-ltd.org.uk

## Ôl Troed Carbon Cymru

Mae'r wefan hon yn eich galluogi i gyfrifo eich ôl troed carbon a chael cyngor ar sut i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Darperir cyfres o adnoddau ar gyfer grwpiau cymunedol.
www.walescarbonfootprint.gov.uk

## Cynnal Cymru – Sustain Wales

Mae'r wefan hon yn gyforiog o wybodaeth am sut i fyw yn gynaliadwy, ac yn cynnwys cyfeiriadur o'r sefydliadau, prosiectau, cefnogaeth a chymorth sy'n bodoli yn eich ardal chi.
www.sustainwales.com

## Mapiau Cyngor Datblygu ar gyfer Cymru

Gellir defnyddio'r mapiau ar-lein hyn i weld a oes risg y bydd eich eiddo yn dioddef gan lifogydd.
http://data.wales.gov.uk/apps/floodmapping/

## Cadw

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a diogel yng Nghymru. Cadw sy'n gyfrifol am ddiogelu treftadaeth Cymru, cynorthwyo pobl i ddeall a pharchu hanes a chymeriad unigryw Cymru.
www.cadw.wales.gov.uk

## Y Porth Cynllunio

Y Porth Cynllunio yw adnodd cynllunio a rheoliadau adeiladu ar-lein Llywodraeth y DU ar gyfer Cymru a Lloegr. Darperir gwybodaeth ar y wefan hon ar gyfer perchnogion tai, busnesau a gweithwyr proffesiynol yn y maes cynllunio.
http://www.planningportal.gov.uk/?language=wa

## Retrofit Buildings

Ar y wefan hon ceir newyddion a gwybodaeth ynghylch gwella adeiladau ac arbed ynni.
www.retrofitbuildings.com

## Sustainable Traditional Buildings Alliance (STBA)

Nod STBA yw hyrwyddo a sicrhau adeiladau traddodiadol mwy cynaliadwy yn y DU drwy ymchwil, addysg, hyfforddiant a pholisi. Ar eu gwefan ceir gwybodaeth ynghylch gwella cynaliadwyedd adeiladau traddodiadol.
www.stbauk.org

Mae'r dogfennau hyn ar ein gwefan yn:
**www.cymru.gov.uk/cynllunio**

Paratowyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Print ISBN 978 0 7504 7792 5
Digital ISBN 978 0 7504 7794 9
© Hawlfraint y Goron 2013
WG15713